# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Llwyngwril
## Llwyngwril, Dolgellau
## Gwynedd
## LL37 2QA

**Rhif yr ysgol: 6612201**
**Dyddiad yr arolygiad: 12/10/09**

**gan**

**Merfyn Lloyd Jones**
**78218**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/12/09**
**O dan rif contract Estyn: 1102009**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

85.Mae datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn cael ei feithrin yn effeithiol. Ymdrinia’r disgyblion â gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau yn aeddfed a chydwybodol. Mae addoli ar y cyd yn bodloni’r gofynion statudol. Mae’n briodol i oedran, datblygiad a chefndir y disgyblion ac yn rhoi cyfle i iddynt ystyried cwestiynau moesol a chymdeithasol. Mae’r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ond yn cydnabod yr angen i gryfhau ymhellach y ddarpariaeth yma.

**Addysg grefyddol**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

204. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nhyfnod allweddol 1 a 2 mae gan mwyafrif y disgyblion ysbryd ymchwilgar a chwilfrydig ac maent yn teimlo'n hyderus i godi cwestiynau o'u profiad personol a chrefyddol.

205. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn trafod egwyddorion megis cyfeillgarwch, goddefgarwch, gofal dros eraill ac ymddygiad tuag at ei gilydd yn dda. Mae'r holl disgyblion yn trafod yn hyderus nodweddion a phwrpas addoldai.

206. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a wybodaeth a dealltwriaeth dda o arferion, seremonïau a dathliadau Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam. Gwyddant am bwysigrwydd pererindod i gredinwyr ac mae eu gwybodaeth am fannau pererindota'r crefyddau amrywiol yn dda.

207. Yng nghyfnod allweddol 2 mae disgyblion yn wybodus wrth ddwyn i gof lawer o storïau o'r Beibl. Gall rhai disgyblion hŷn ddadansoddi, dehongli a chymhwyso'r straeon i fywyd pob dydd. Maent i gyd yn trafod nodweddion a phwrpas addoldai yn hyderus.

208. Dealla llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gysyniadau megis cyd-wybodaeth, maddeuant ac ufudd-dod a dangosant ymwybyddiaeth gadarn o effaith a dylanwad cred ar gredinwyr.

209. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian a chefnogi elusennau cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, daw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol eu bod yn rhan o gymuned fyd eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn.

**Diffygion**

210. Nid oes diffygion pwysig.